

## CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

### COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 14 MEHEFIN 2022 AM 7.00 O'R GLOCH

#### YN Y GANOLFAN TALYSARN

- 1. PRESENNOL** - Gwyndaf Roberts (cadeirydd), Hefina Roberts - Llanllyfni, Dafydd Thomas - Nebo, Siân Dafydd, Gareth Jones, Harry Owen, Peter Bridges - Talysarn, Dylan Herbert, Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Judith Humphreys, - Penygroes, Ffion Jones - Nantlle, Cynghorydd Peter Thomas.  
**YMDDIHEURIADAU** - Justin Davies (Penygroes) a Chynghorydd Dafydd Davies.
- 2. SEDDI GWAG** - roedd pedair sedd wag ar y Cyngor (Llanllyfni 1, Penygroes 1 a Talysarn 2). Roedd 4 enw wedi eu rhoi ymlaen yn dilyn o'u hysbysebu. Trafodwyd y ceisiadau a phenderfynwyd yn unfrydol bod pawb yn fodlon i'r 4 fod ar y Cyngor Cymuned - Christine Hughes (Llanllyfni), Judith Humphreys (Penygroes), Harry Owen a Peter Bridges (Talysarn). Yn dilyn hyn ac yn dilyn cyngor gan Unllais Cymru roedd y cynghorwyr hyn nawr yn cael bod yn rhan o weddill y cyfarfod heno. Croesawyd Judith, Harry a Peter i'r cyfarfod a diolchwyd iddynt am fod yn barod i ddod ar y cyngor.
- 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL YNGLŶN AG UNRHYW EITEM A DRAFODIR** - Nid oedd neb yn datgan buddiant.
- 4. CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 17 MAI 2022** - Cynigiodd Dylan Herbert fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan Barry Bracegirdle.
- 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD - Clwb Ieuenctid** - adroddodd Judith bod pethau yn symud ymlaen gyda hyn bellach. **Safle hen dafarn Cwari, Llanllyfni** - Y clerc wedi cysylltu gyda'r gwerthwyr ynglŷn â chyflwr y safle ac maent wedi ymateb yn dweud eu bod wedi bod mewn cysylltiad gyda'r perchnogion am y mater. **History Points** - daeth cais ynglŷn â rhoi codau QR ar y ganolfan yn Nhalysarn - ond cytunwyd y buasai yn rhaid iddynt gysylltu gyda phwyllgor y ganolfan am hyn. Hefyd roeddynt yn awyddus i roi rhai ger cofeb R Williams Parry - doedd dim gwrthwynebiad i hyn, ond angen nodi y buasai yn rhaid iddynt gael caniatâd gan berchnogion y tŷ wrth y gofeb i roi cod ar y wal. Hefyd roeddynt eisiau i rywun lleol recordio darllen un o'i gerddi - cynigiodd Siân efallai y buasai yn syniad i blant yr ysgol gael y cyfle i wneud hyn. Y clerc i gysylltu nôl gyda nhw am hyn. **CPD Talysarn Celts** - roedd e-bost wedi ei dderbyn gan y CPD - darllenwyd yr e-bost. Adroddwyd ar hyn o bryd bod y mater allan o ddwylo'r Cyngor Cymuned hyd nes roedd Daniel Lewis Cyngor Gwynedd yn ymateb i'r e-bost diwethaf a yrrwyd ato. Cymerodd Siân y cyfle hwn i adrodd pa mor dda oedd y twrnament a oedd wedi ei gynnal gan y clwb ar y safle yn ddiweddar. Roedd y lle yn werth ei weld a llawer o bobl wedi troi fyny i gymryd rhan a chefnogi. Roedd y trydanwr a oedd wedi ymweld ar ystafelloedd newid wedi rhoi rhestr a phrisiau ar gyfer o beth oedd yn angen i'w wneud yno. Trafodwyd a chynigiodd Siân ac eiliwyd gan Ceri i gario allan y gwaith angenrheidiol a oedd yn gost o £313.98+TAW. Cytunodd pawb gyda hyn. **Ymateb Cyngor Gwynedd** - y clerc wedi cysylltu gyda'r adran ynglŷn â'r pryder am y wal ar Ffordd Nebo yn disgyn i'r ffordd. Mae Cyngor Gwynedd yn edrych ar y sefyllfa unwaith eto. Toiledau Penygroes - dim ymateb wedi dod gan yr adran yn dilyn gofyn am restr o fusnesau a oedd gyda'r cyfleusterau. Y clerc i ddilyn fyny ar hyn.
- 6. ADRODDIADAU GAN Y CYNGHORWYR SIR** - Adroddodd Peter Thomas ei fod ar wybod gan Gyngor Gwynedd bod Lôn Ddŵr, Ffordd Rhedyw a Lôn Tŷ Gwyn, Llanllyfni ar eu rhestr o ffyrdd i gael eu hatgyweirio - ond mae costau wedi cynyddu 25% felly dim yn siŵr pryd fydd y gwaith hwn yn cael ei wneud. Roedd wedi bod yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ac adroddodd eu bod wedi penderfynu cynnal cyfarfod safle yn Chwarel Taldrwst yn y tair wythnos nesaf cyn penderfynu dim byd ynglŷn â'r cais cynllunio. Adroddwyd bod yna amserlen bysiau newydd wedi dod allan ar gyfer bysiau sydd yn mynd drwy Lanllyfni (Gorffennaf / Awst) ond yn gobeithio y bydd mwy o fysiau yn mynd drwy'r pentref yn fuan. Cyngor Gwynedd wedi tynnu tair mainc o gae chwarae Llanllyfni am eu bod wedi pydru, ac am roi un yn nol, gan fod un yn ddigon meddent ar gyfer

safle o'r maint hwn. Swyddog o'r cyngor wedi dweud nad yw Ffordd Hyfrydle, Talysarn yn ddigon drwg i wneud dim amdano ar hyn o bryd. Coed ar y ffordd i fyny'r llwybr yno i fod wedi cael eu torri erbyn hyn. Goryrru Nantlle - wedi cael gwybod eu bod am roi teclynnau yno i fonitro cyflymder am chwe wythnos ac wedyn gweld sut i fynd ymlaen ar mater. Diolchwyd i Peter am ei adroddiad.

7. **MATERION PENTREFI - NEBO** - roedd Dafydd Thomas wedi gyrru e-bost ymlaen ynglŷn â'r blwch ffon yn Nebo - darllenodd Gwyndaf yr e-bost i bawb. Roedd yr e-bost gan gorff CADW ac yn gofyn i gael cofrestru'r blwch fel adeilad gradd 2. Trafodwyd hyn a chynigiodd Siân fod y clerc yn gwirio mai'r Cyngor Cymuned sydd berchen y blwch ac os mai dyma'r achos yna caniatáu y cais hwn. Eiliodd Barry a chytunodd pawb. **TALYSARN** - cwynion wedi ei derbyn bod biniau baw cwn yn gorlenwi a bod angen eu gwagio yn fwy cyson. Adroddwyd bod diffib Talysarn i mewn yn y ganolfan ac yn golygu bod dim modd ei ddefnyddio os yw'r ganolfan wedi ei chloi. Cynigiodd Ffion y dylid holi sut i geisio ei symud i'r tu allan. **NANTLLE** - dim mater i'w adrodd. **LLANLLYFNI** - unwaith eto baw cwn yn broblem a hefyd chwyn ar hyd ochr y strydoedd a ffyrdd. Gofyn oes posib cael bin tu allan i fynwent Gorffwysfa gan fod pobl yn taflu sbwriel yno. **PENYGROES** - Stad Cae Capel Bach, gwrych yn dod allan i'r palmant ac eisiau ei thacluso er mwyn medru cerdded ar y palmant yn ddiogel (Cynefin sy'n gyfrifol am hyn). Cwynion wedi eu derbyn ynglŷn â chyflwr y Stryd Fawr ar tyllau sydd yn y ffordd a hefyd cwynion gan rai sydd yn byw ar Ffordd Llwyndu bod cyflwr y ffordd yn ddifrifol gyda thyllau a bod dŵr yn cael ei dasgu ar ddrysau eu tai pan fo cerbydau yn pasio. Gwaith wedi ei wneud gan Fwrdd Dwr ar Ffordd yr Wyddfa ond angen glanhau'r gyli ar palmant tu allan i'r becws. Canclwm wedi dechrau tyfu nawr yn y gilfan rhwng Penygroes a'r Groeslon. Y clerc i gysylltu gyda'r gwahanol adrannau a sefydliadau ar yr uchod.
8. **CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU - LLWYBRAU A MYNWENTYDD 08/06/22 - Llwybrau** - adroddwyd bod e-bost wedi ei dderbyn gan un o drigolion Talysarn am gyflwr rhai o lwybrau'r ardal - gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r contractwyr torri llwybrau am rain a gofyn iddynt ddelio gyda nhw. **Mynwentydd** - adroddodd Gwyndaf beth oedd wedi ei drafod yn yr is-gyfarfod. Adroddwyd bod yr is-bwyllgor wedi edrych dros reolau'r mynwentydd ac wedi gwneud ambell newid - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r rheolau wedi eu diwygio er mwyn edrych drostynt cyn y cyfarfod heno. Roedd pawb yn fodlon gyda'r newidiadau a chytunwyd yn unfrydol i'w pasio. Bydd angen edrych dros brisiau claddedigaethau - am wneud hyn mewn cyfarfod ychwanegol ym mis Medi. Cais wedi ei dderbyn gan deulu yn gofyn a oes caniatâd i gael cynnal claddedigaeth yn Macpela heb fod ymgymwrwr angladdau yn bresennol (y teulu i drefnu popeth eu hunain) a hefyd oes caniatâd i beidio defnyddio arch ond defnyddio amwisg (shroud). Rhoddwyd ymlaen i'r pwyllgor llawn i beidio â gadael i hyn ddigwydd am nifer o resymau penodol fel bod gan ymgymrwyr yswiriant ar gyfer y gwaith sydd yn cael ei gario allan wrth ymwneud ac angladdau ayyb. Trafodwyd a chytunwyd gydag argymhellion yr is-bwyllgor i beidio caniatáu hyn. Y clerc i gysylltu gyda'r teulu i esbonio. Adroddwyd bod y gwaith ffensio yn Macpela yn mynd yn ei flaen. Mae dau bris wedi eu derbyn ar gyfer trwsio'r wal yn Macpela - £930+TAW a £990. Trafodwyd a chynigwyd y dylid hysbysebu'r tendr gan fod angen tri phris ar gyfer gwaith sydd dros £500. Ategodd Harry ei farn nad yw'r ffigwr £500 yn ddigon a bod eisiau ei godi. Trafodwyd y ddau bris a dderbyniwyd yn y pwyllgor llawn a chynigiodd Ceri y dylid cymryd y pris £990 ac eilwyd gan Barry, am fod y person hwn yn saer maen proffesiynol. Cynigiodd Ceri hefyd y dylid yn gyntaf hysbysebu'r gwaith er mwyn ceisio cael mwy o brisiau. Trafodwyd a chytunwyd yn unfrydol i ro hysbyseb ar dudalen 'Facebook' y Cyngor Cymuned gyda dyddiad cau 28/06/2022 ac os na fydd prisiau ychwanegol wedi eu derbyn yna i fynd gyda'r pris a gynigwyd uchod.
9. **TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID** - Gofynnwyd pe bai Gareth yn fodlon adrodd ar hyn. Dywedodd bod hanner cyntaf y presept wedi ei dderbyn a hefyd yr arian a oedd yn daladwy yn nol gan HMRC mewn TAW. Llauer o ddim arall wedi digwydd gan ei bod yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd. Adroddodd bod angen ymateb i rai pethau a oedd wedi ei godi gan yr archwilydd mewnol am gyfrifon 2021/22 cyn gallu mynd ymlaen i hysbysebu'r cyfrifon a'u harwyddo. Y clerc wedi derbyn cais gan y contractwyr yn gofyn i gael rhannu anfoneb y torri llwybrau a mynwentydd yn 3 rhan ac yna rhoi'r gwaith ychwanegol ar yr anfoneb olaf. Cynigiodd Dafydd y dylid gofyn am anfonebau'r gwaith ychwanegol yr un pryd ac mae wedi ei wneud ac nid ar ddiwedd y flwyddyn. Cytunodd pawb gyda'r cynnig hwn. Nia i adrodd yn nol i'r contractwyr.

10. **CEISIADAU CYNLLUNIO** – C22/0476/22/DA – Stablau Siop Griffith Cyf, Penygroes – gofynwyd os oedd yr adeilad hwn yr un rhestredig. Y clerch i holi ac os nad ydyw yna dim gwrthwynebiad i'r cais. C22/0533/22/DT – Dolawel, Ffordd Clynog, Penygroes – dim gwrthwynebiad.
11. **LLOCHES BWS YN NANTLLE** - ymholiad wedi ei dderbyn gan un o drigolion Nantlle yn gofyn a fuasai modd rhoi cysgodfa bws yn Nantlle ar yr ochr lle mae pobl yn disgwyl i fynd am Gaernarfon. Trafodwyd hyn a hefyd y safle lle mae'r arosfa ond pawb o'r farn nad oes lle i roi lloches ac os ydynt yn rhoi yna bydd yn achosi problem parcio a hefyd y palmant yn gul yno. Penderfynwyd yn unfrydol i beidio rhoi lloches yno. Nia i adrodd nôl i Gyngor Gwynedd am hyn.
12. **GOHEBIAETH** - Roedd pawb wedi derbyn copiâu o'r ohebiaeth isod cyn y cyfarfod er mwyn edrych drostynt .
- CYNGOR GWYNEDD – Penodi aelod cymunedol i'r Pwyllgor Safonau – CYTUNO
- EISTEDDFOD LLYN AC EIFIONYDD - Gwahoddiad i Seremoni'r Cyhoeddi - dywedodd Hefina ei bod hi yn mynd yn barod felly yn fodlon cynrychioli'r Cyngor Cymuned hefyd. Diolchwyd iddi am hyn.
13. **MATERION ARIANNOL** –
- Eisteddfod Llyn ac Eifionydd - £3000 – cytuno i'w dalu mewn un taliad
- Nia Jones - £25 Ffon a rhyngrwyd – cytuno i'w dalu.
14. **UNRHYW FATER ARALL** - Harry Owen yn dymuno ymddeoli ddyletswyddau o edrych ar ôl y mynwentydd. Dywedodd ei fod yn barod i roi help llaw i rywun am ychydig fisoedd i ddangos gyda beth sydd angen ei wneud. Cynigiodd Barry y dylid cael dau berson i wneud hyn a dywedodd ei fod ef yn fodlon gwneud gyda Gwyndaf Roberts. Cytunodd Gwyndaf a phenderfynwyd yn unfrydol i hyn fynd yn ei flaen. Diolchwyd i Harry am ei wasanaeth diflino ar hyd y blynyddoedd yn edrych ar ôl y mynwentydd a chyd-weithio gyda'r contractwyr.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.